



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion,

Wrth i ni agosáu at wyliau'r Pasg hoffwn estyn fy nymuniadau gorau atoch, mawr obeithiaf eich bod yn cadw'n iach. Mae'n gyfnod rhyfedd iawn i bawb wrth i ni ddilyn y canllawiau ar gyfer ymateb i her y Coronafeirws a byw a gweithio mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r arfer.

Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i ymwneud â rhai o'r gweithgareddau a ddsbarthwyd yn y pecynnau dysgu cyn i'r ysgol gau neu eich bod wedi cael golwg arnynt ar wefan yr ysgol. Cofiwch syniadau yw rhain yn unig a peidiwch â phoeni os nad ydych wedi eu cwblhau. Hoffwn bwysleisio mai iechyd a lles pawb yw'r prif flaenoriaeth ar adeg fel hon.

Yn ystod yr wythnos gyntaf pan fu'r ysgol ar gau bu'r staff yn cydweithio gyda staff ysgolion y cylch a'r Awdurdod Addysg er mwyn darparu gofal plant i gefnogi gweithwyr allweddol yn yr Ysgol Gymraeg.

Yn ystod yr wythnos hon a dros wyliau'r Pasg mi fydd y staff cynorthwyol yn parhau i weithio ar rota er mwyn cynorthwyo gyda gofal plant yn yr ysgol tra bod ffocws yr athrawon bellach yn troi at gynllunio gweithgareddau ar gyfer y disgyblion wrth i ni symud i dymor yr haf.

Yn ystod ein cyfarfodydd staff arlein rydym wedi bod yn cynllunio gweithgareddau addas a fydd yn cael eu gosod yn Teams ar Hwb ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6. Mi fydd Teams yn galluogi i ddisgyblion a staff gyfathrebu gyda'i gilydd a derbyn negeseuon gan yr athrawon. Mi fydd gweithgareddau wythnosol ar gyfer y Meithrin a'r Derbyn yn parhau trwy ddolen ar wefan yr ysgol yn unig.

Ar hyn o bryd mi fyddwn yn gosod tasgau ar ddydd Llun ar gyfer yr wythnos gyfan ac mi fydd yr athrawon yn medru cyfathrebu / ymateb i'r gwaith drwy Teams, mi fydd hyn yn cychwyn ar ddydd Lun, Ebrill 20fed. Rydym yn ymwybodol nad oes gan bawb fynediad i gyfrifiadur yn ddyddiol ond yn gobeithio eich bod o leiaf yn medru gweld rhai o'r tasgau ar wefan yr ysgol drwy ffôn neu dabled neu ddyfais debyg. Hoffwn i chi ddanfôn neges i'r ysgol os ydych angen unrhyw gymorth gydag offer technolegol.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch

R C Williams
Pennaeth 03/04/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils,

As we approach the Easter holidays I would like to extend my best wishes to you, I hope you are keeping well. It's a very strange time for everyone as we follow the guidelines for responding to the challenge of Coronavirus and living and working in very different ways from the norm.

We hope that you have had the opportunity to get involved with some of the activities that were distributed in the learning packs before the school closed or that you found them on the school website. Remember these are just ideas and don't worry if you haven't completed them. I would like to stress that everyone's health and well-being is our top priority at a time like this.

During the first week of the school's closure staff worked with staff from the other area schools and the Education Authority at Ysgol Gymraeg to provide childcare to support key workers.

During this week and over the Easter holidays the support staff will continue to work on a rota to assist with childcare in school while the teachers' focus is now on planning activities for the pupils as we move to the summer term.

During our online staff meetings we have been planning suitable activities that will be set up in Teams on Hwb for Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6. Teams will enable pupils and staff to communicate with each other and for pupils to receive messages from their teachers. Weekly activities for Nursery and Reception will continue through a link placed on the school website only.

At present we will be setting tasks on a Monday for the whole week and teachers will be able to communicate / respond to the work through Teams, this will commence on Monday, April 20th. We are aware that not everyone has access to a computer on a daily basis but hope that you are at least able to access some of the tasks on the school website via a phone or tablet or similar device. Please send a message to the school if you need any assistance with technological equipment.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yours,

*R C Williams
Headteacher 03/04/2020*